



**Undeb
Myfyrwyr**
PCYDDS

**UWTS'D
Students'
Union**

LIMITED EDITION

Llawlyfr

CYNRHYCHIWYR CWRD



LLONGYFARCHIADAU ar gael eich ethol yn GYNRYCHIOLYDD CWRYS!



Rydym yn falch iawn eich bod chi wedi ymuno â'n gwaith i sicrhau bod myfyrwyr PCyDDS yn cael y profiad gorau posib yn ystod eu hamser fel myfyrwyr yma. Mae'r llawlyfr hwn yn adnodd i chi yn ystod eich amser fel Cynrychiolydd Cwrs – gwnewch y defnydd gorau ohono!

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, anfonwch e-bost i **studentvoice@uwtsd.ac.uk**.





Trosolwg Cynrychiolwyr

#1



RHESTR WiRiO

Cynrychiolwyr Cwrs

Bydd y llawlyfr hwn yn eich helpu i gael eich sefydlu fel Cynrychiolydd Cwrs, ac i wneud hynny, mae'r isod yn bethau i'w cwblhau er mwyn sicrhau eich bod yn barod i ddechrau yn y rôl, ac yn gwybod pa gymorth ac adnoddau sydd ar gael i chi.

- ☐ **Darllenwch eich Llawlyfr Cynrychiolwyr Cwrs**
- ☐ **Ewch ati i greu cyfrif ar ein gwefan**
- ☐ **Mae'n bwysig mynychu sesiynau hyfforddiant**
- ☐ **Byddwch yn weladwy**
- ☐ **Mae angen i chi baratoi**
- ☐ **Cadwch gofnod o'r hyn rydych chi'n ei gyflawni**
- ☐ **Adborth Adborth Adborth!**
- ☐ **Arhoswch mewn cysylltiad, a gofynnwch am gymorth pan mae ei angen arnoch**

Beth yw Cynrychiolydd Cwrs?


Mae Llais y Myfyriwr wrth galon popeth a wnawn, ac mae Cynrychiolwyr Cwrs yn rhan annatod o'n hymagwedd at bartneriaeth wrth wreiddio hyn yn y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel o PCyDDS. Mae adborth yn hanfodol ar gyfer gwelliant parhaus ym mhrofiad myfyrwyr yn PCyDDS, ac mae eich rôl fel Cynrychiolydd Cwrs yn hanfodol i sicrhau bod safbwyntiau a phrofiadau myfyrwyr yn cael eu clywed.

Fel Cynrychiolydd Cwrs, eich rôl yw canfod beth mae myfyrwyr ar eich cwrs yn ei feddwl, ac yna cynrychioli eu barn. Byddwch yn gyswllt hanfodol a gwerthfawr rhwng myfyrwyr, Undeb y Myfyrwyr, a'r Brifysgol, gan gynrychioli Llais y Myfyrwyr ar Bwyllgorau Staff-Myfyrwyr (PSM), a darparu mewnwelediad ar gyfer prosesau ansawdd.

Rôl y Cynrychiolydd Cwrs

Fel Cynrychiolydd Cwrs disgwylir i chi:

- Hyrwyddo eich rôl a'ch cyfrifoldebau i eraill ar eich cwrs, fel eich bod yn dod yn wyneb cyfeillgar ac yn bwynt cyswllt i unrhyw un sydd ag adborth i'r Brifysgol.
- Ymgynghori â myfyrwyr ar faterion sy'n ymwneud â'u buddiannau academaidd, gan ddarganfod beth yw eu barn am faterion fel adborth ac asesu, strwythur y cwrs, a dysgu ac addysgu.
- Cynrychioli barn myfyrwyr mewn Pwyllgorau Staff-Myfyrwyr, Adolygiadau Rhaglenni Blynnyddol, ac adolygiadau ar lefel Athrofa lle bo'n berthnasol.
- Cyfleu canlyniadau cyfarfodydd i fyfyrwyr ar eich cwrs, i wneud yn siŵr eu bod yn cael gwybod sut mae eu hadborth yn cael ei roi ar waith.
- Lle bo angen, cyfeirio myfyrwyr at wasanaethau mwy priodol yn Undeb y Myfyrwyr neu'r Brifysgol fel eu bod yn cael cymorth effeithiol.
- Ymgysylltu'n weithredol â Chynrychiolwyr Llais Myfyrwyr eich Athrofa.



Er mwyn ffynnu a mwynhau eich rôl fel Cynrychiolydd Cwrs, mae'n bwysig eich bod yn:

- Ymgymryd â hyfforddiant gorfodol sy'n cael ei gynnal gan Undeb y Myfyrwyr.
- Ymgyswrtio â gwasanaethau Undeb y Myfyrwyr a'r Brifysgol fel y gallwch atgyfeirio materion mwy cymhleth.
- Mynychu cyfarfodydd anffurfiol a gynhelir gan Gynrychiolwyr Llais Myfyrwyr ac Undeb y Myfyrwyr.
- Cadw mewn cysylltiad ag Undeb y Myfyrwyr i adrodd ar gynnydd ac unrhyw feysydd y mae angen cymorth ychwanegol gyda nhw - helpwch ni i'ch helpu chi!

Rôl Undeb y Myfyrwyr

Rôl Undeb y Myfyrwyr yw eich cefnogi yn eich rôl fel Cynrychiolydd Cwrs. Rydym yma i'ch arwain, i ateb unrhyw gwestiynau neu bryderon sydd gennych, ac i'ch grymuso yn eich rôl. Rydym yn cynnig hyfforddiant i chi, yn eich helpu i hyrwyddo eich rôl, ac yn eich cynorthwyo i godi materion pan nad ydych yn siŵr ynghylch beth i'w wneud neu ble i fynd.

Mae Cynrychiolwyr Llais Myfyrwyr yn gweithio mewn partneriaeth ag uwch staff y Brifysgol i greu datrysiadau a sicrhau bod eich lleisiau'n cael eu clywed. Yn y strwythur adborth, dyma'r cam nesaf i fyny o fod yn Gynrychiolydd Cwrs, ac mae'n beth gwych i'w ystyried ar ôl eich cyfnod fel Cynrychiolydd Cwrs!

Mae Cynrychiolydd Llais Myfyrwyr yn gynrychiolydd myfyrwyr allweddol ar gyfer materion sy'n ymwneud â'r Profiad Academaidd ar lefel Athrofa. Maent yn gweithio gyda Chynrychiolwyr Llais Myfyrwyr eraill a Chynrychiolwyr Cwrs yn eu hadran a'r athrofa ehangach i sicrhau bod adborth yn cael ei glywed, yn cael ei rannu, ac yn cael ei weithredu ar bob lefel o system adrodd y Brifysgol. Dyma'r lefel nesaf o ran sicrhau bod llais y myfyriwr yn cael ei gynrychioli mewn cyfarfodydd allweddol.

Mae Undeb y Myfyrwyr yn casglu gwybodaeth gan bob PSM i wneud yn siŵr, pan fo yna themâu sy'n effeithio ar brofiad myfyrwyr, y gallwn ni i gyd ddod at ein gilydd i weithredu. Ar yr un pryd, efallai y bydd themâu cadarnhaol yn dod o'r PSM, ac rydym yn gweithio i helpu pob Cynrychiolydd Cwrs i ddathlu pan fydd pethau'n mynd yn dda ar gyrsiau.

Rôl y Brifysgol

Rôl y Brifysgol yw darparu cyfleoedd i chi roi adborth am eich profiadau, megis trwy drefnu Pwyllgorau Staff-Myfyrwyr (PSM) i chi eu mynychu. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i sicrhau bod gweithgarwch llais myfyrwyr wedi'i wreiddio ym mhob agwedd ar eu cynllunio, ac i gydnabod ei bwysigrwydd wrth gyfoethogi a gwella profiad myfyrwyr. Mae gan y Brifysgol hefyd rôl mewn creu diwylliant cynhwysol lle cewch gyfle i godi syniadau a materion o bwys, a lle caiff safbwyntiau myfyrwyr eu trin â pharch.

Er mai cynrychiolwyr myfyrwyr yw Cynrychiolwyr Cwrs, er mwyn i'n

system fod yn effeithiol, mae gan staff academiaidd rôl hanfodol i'w chwarae mewn sicrhau bod cynrychiolwyr yn cael eu hethol ar gyfer pob cwrs, ac mae'r bartneriaeth gydweithredol hon yn allweddol i lais y myfyrwyr gael ei gydnabod ar bob lefel.

Strwythur Cynrychiolaeth Academiaidd

Mae eich rôl yn chwarae rhan annatod wrth gynrychioli profiadau academiaidd myfyrwyr yn PCyDDS. Rhennir adborth ar wahanol lefelau o fewn strwythur cyfarfodydd y Brifysgol.

Mae rhannu gwybodaeth yn digwydd trwy'r strwythur canlynol: (see diagram)

Er bod yr adborth a ddarperir gan fyfyrwyr yn cyrraedd yr holl ffordd drwodd at eich Llywyddion etholedig, mae'n bwysig cydnabod natur gylchol y dolenni adborth, sy'n golygu bod diweddariadau a dderbynnir ar bob lefel hefyd yn cael eu rhannu'n ôl i'r lefel a roddodd yr adborth yn wreiddiol.

Sut i fod yn Gynrychiolydd Cwrs

Rydych wedi cael eich ethol yn Gynrychiolydd Cwrs gan y rhai yn eich dosbarth i weithredu a siarad ar ran y myfyrwyr sydd ar eich rhaglen. Eich rôl chi yw darganfod beth yw barn myfyrwyr ar eich cwrs am eu profiadau academiaidd, a chyfleu'r wybodaeth honno i'r Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr fel y gallant wneud newidiadau cadarnhaol. Mae'n bwysig yn ystod eich amser fel Cynrychiolydd Cwrs eich bod nid yn unig yn rhoi eich barn eich hun, neu farn eich ffrindiau - eich cyfrifoldeb chi yw trosglwyddo'r holl safbwyntiau a gyflwynir i chi yn eich rôl fel Cynrychiolydd Cwrs, p'un a ydynt yn cyd-fynd â'ch barn chi ai peidio.

Rhaid i chi fynd ati i ymgysylltu, canfasio a chynrychioli eich grŵp cyfan, hyd yn oed os yw hyn yn golygu nad ydych o reidrwydd yn cytuno â'r farn yr ydych yn ei chyflwyno. Cofiwch, os ydych byth yn ansicr neu'n anghyfforddus wrth gyflwyno unrhyw adborth gan fyfyrwyr, gallwch gysylltu ag un o'n Tîm Llais Myfyrwyr am gyngor: ac.uk:

studentvoice@uwtsd.ac.uk.

Yr Holl Fyfyrrwyr

Lefel Unigol



Cynrychiolwyr Cwrs

Lefel Rhaglen



**Cynrychiolwyr Llais
Myfyrwyr**

Lefel Athrofa



Llywyddion

Lefel Prifysgol



Pwyllgorau Staff-Myfyrwyr

#2

Pwyllgorau Staff-Myfyrwyr

Mae Pwyllgorau Staff-Myfyrwyr (PSM) yn gyfarfodydd pwysig gyda staff cyrsiau a rhaglenni'r brifysgol y byddwch yn eu mynychu fel Cynrychiolydd Cwrs - weithiau cânt eu galw'r enw gwahanol; fodd bynnag, mae'r egwyddorion yn aros yr un fath. Cynhelir o leiaf dri PSM yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhain yn gyfarfodydd ffurfiol sy'n cael eu cofnodi, ac mae hynny'n golygu y bydd yr adborth gan fyfyrwyr rydych chi'n ei gyflwyno yn y cyfarfod yn ymddangos yn y cofnodion. Mae hyn yn golygu bod tystiolaeth o drafodaethau a phwyntiau gweithredu y cytunwyd arnynt i bawb sy'n bresennol allu cyfeirio'n ôl atyn nhw.

Pethau i chi eu hystyried fel Cynrychiolydd Cwrs

Paratoi ar gyfer PSM

- Nodwch ddyddiadau ac amseroedd y cyfarfodydd - rhowch flaenoriaeth i fynychu'r rhain gymaint â phosibl o amgylch eich dyletswyddau academiaidd fel myfyriwr
- Casglwch adborth myfyrwyr ymlaen llaw - defnyddiwch yr agenda fel canllaw ar gyfer unrhyw gwestiynau ychwanegol i'w gofyn i'ch cyd-fyfyrwyr
- Darllenwch gofnodion y cyfarfodydd blaenorol - nodwch pa adborth gan fyfyrwyr a chmau gweithredu sydd wedi'u trafod o'r blaen
- Ysgrifennwch gwestiynau a phwyntiau penodol yr hoffech eu lleisio yn y cyfarfod

Yn ystod PSM

- Rydych chi'n cynrychioli'r holl fyfyrwyr yn eich carfan yn y cyfarfodydd hyn, felly mae'n bwysig ymddwyn yn broffesiynol
- Cyflwynwch adborth yn adeiladol - darparwch syniadau ar gyfer datrysiadau

- Byddwch yn barchus - yn enwedig os oes anghytundeb ar fater; dylech drin eraill fel yr hoffech gael eich trin
- Cymerwch nodiadau a gofynnwch gwestiynau - os nad ydych yn deall rhywbeth, gofynnwch am eglurhad a bydd staff bob amser yn hapus i egluro ymhellach

Yr Agenda (beth i'w ddisgwyl)

- Diweddariadau gan Staff
- Adolygiadau Blynyddol o Raglenni
- Adborth Modiwl
- Paratowch eich nodiadau i sicrhau bod eich llais yn cael ei glywed!

Ar ôl PSM

- Caewch y ddolen adborth trwy ddiweddarau myfyrwyr ar ganlyniad y PSM ac unrhyw gamau gweithredu posibl sydd wedi'u pennu
- Cysylltwch â Thîm Llais Myfyrwyr Undeb y Myfyrwyr yn ogystal â'ch Cynrychiolydd Llais Myfyrwyr gyda diweddariadau neu bryderon am gymorth ychwanegol



No
Graffiti
Offenders will
be prosecuted

HIP HOP

PRETTY
SHITTY
CITY

53

Supreme
HELL
OPEN

OBEY

Supreme

melgroove

TSMT

TSMT

TSMT

TSMT

TSMT

TSMT

TSMT

TSMT

TSMT

TSMT

TSMT

TSMT

TSMT

TSMT

TSMT

TSMT

TSMT

TSMT

TSMT

TSMT

TSMT

TSMT

TSMT

TSMT

TSMT

TSMT

TSMT

TSMT

TSMT

TSMT

TSMT

TSMT

TSMT

TSMT

TSMT

TSMT

TSMT

TSMT

TSMT

TSMT

TSMT

TSMT

TSMT

Y Ddolen Adborth

#3

Y Ddolen Adborth

Mae'r ddolen adborth yn gylchred barhaus o gyfathrebu rhyngoch chi, rhanddeiliaid allweddol yn Undeb y Myfyrwyr, a'r Brifysgol, sy'n sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu a'i thrafod, a bod camau gweithred lle bo'n briodol. Mae'n ymwneud â gyrru gwelliannau ym mhrofiad myfyrwyr.

Cydrannau Allweddol y Ddolen Adborth

Adborth Myfyrwyr

- Materion, syniadau, a phethau cadarnhaol a godwyd gan gyd-fyfyrwyr

Cynrychiolydd Cwrs yn Cyfathrebu â Staff

- Mae adborth myfyrwyr yn cael ei gyflwyno i staff perthnasol trwy'r PSM

Gweithredu Gan y Brifysgol

- Rydych chi'n gweithio mewn partneriaeth â staff i fynd i'r afael â'r adborth rydych chi wedi'i roi

Cynrychiolydd Cwrs yn Cyfathrebu â Myfyrwyr

- Rhowch yr wybodaeth ddiweddaraf i gyd-fyfyrwyr ynghylch ble mae eu hadborth wedi mynd a pha gamau sy'n cael eu cymryd
- Mae'n bwysig cadw'r ddolen i fynd, hyd yn oed os yw adborth wedi arafu yn y broses gyfathrebu

Myfyrwyr yn Profi Newid

- Mae gweithredu'n arwain at brofiad gwell i fyfyrwyr

Adborth Myfyrwyr

- Mae'r cylch yn ailddechrau - mae adborth myfyrwyr yn parhau i gael ei goladu, yn enwedig mewn perthynas â sut mae myfyrwyr yn teimlo am unrhyw newidiadau diweddar a wnaed o ganlyniad i adborth blaenorol
- Mae'n wirioneddol bwysig bod Cynrychiolwyr Cwrs a Staff y Brifysgol yn cydweithio i gau'r ddolen adborth - mae Tîm Llais Myfyrwyr Undeb y Myfyrwyr yno i gefnogi hyn hefyd.

Pethau i'w hystyried fel Cynrychiolydd Cwrs

Yn ansicr ynghylch sut i hyrwyddo'ch hun? Mae yna nifer o ffyrdd y gallwch chi godi eich proffil, ac ymgysylltu â'ch cyd-fyfyrwyr; fodd bynnag, dyma rai awgrymiadau cychwynnol:

- Gofynnwch i ddarlithwyr a allwch chi wneud cyhoeddiadau byr yn y dosbarth
- Cyflwynwch eich hun, amlinellwch eich rôl a'ch amcanion, a sut y gellir cysylltu â chi
- Gofynnwch am gael rhoi eich manylion cyswllt ar hysbysfyrdau rhaglenni neu fforymau ar Moodle
- Siaradwch yn uniongyrchol â myfyrwyr cymaint â phosibl - dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o wneud eich un yn amlwg!
- Defnyddiwch Undeb y Myfyrwyr - os oes gennych chi syniad am sut i hybu ymgysylltiad a bod angen rhywfaint o gymorth arnoch i'w sefydlu, cysylltwch â'n Tîm Llais Myfyrwyr!
- Ystyriwch ysgrifennu blog ar gyfer gwefan Undeb y Myfyrwyr i rannu straeon llwyddiant a chodi eich proffil fel Cynrychiolydd Cwrs

Adborth Myfyrwyr

Weithiau efallai na fydd myfyrwyr yn awyddus i ddarparu adborth; fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu nad oes ganddynt bethau i'w dweud, ac mae'n bwysig cael adborth cadarnhaol ac adeiladol gan fod y cyfan yn cyfrannu at newid. Defnyddiwch y dull casglu adborth sy'n gweddu orau i'ch grŵp myfyrwyr a fydd yn rhoi'r data a'r mewnwelediadau rydych chi'n chwilio amdanyn nhw:

- Darlithoedd - Gofynnwch a allwch chi gael pum munud ar ddechrau neu ddiwedd y ddarlith heb y darlithydd yn bresennol i siarad â phawb gyda'i gilydd
- Siaradwch â myfyrwyr yn unigol cyn / ar ôl darlith
- Fforymau ar-lein
- Cynnal grŵp ffocws
- Arolygon dienw
- Polau piniwn
- Arolygon gwerthuso modiwlau - Bydd annog cyfranogiad yn y rhain o fudd i'ch carfan, gan fod y wybodaeth hon yn mynd i'r Pwyllgorau Staff-Myfyrwyr hefyd!

Wrth ofyn cwestiynau i fyfyrwyr, gwnewch yn siŵr eich bod yn gofyn cwestiynau agored. Ystyriwch sut yr hoffech chi gael eich cynrychioli. Pe bai rhywun yn gofyn i chi "Oes gennych chi unrhyw adborth?" a fydddech yn gallu ateb y cwestiwn hwnnw, neu a fyddai angen i chi ystyried pwnc trafod?

Yn ansicr ynghylch sut i ddatrys problemau?

Mae Tîm Llais y Myfyrwyr yn Undeb y Myfyrwyr yma i roi cymaint o gymorth a chefnogaeth ag sydd ei angen arnoch. Bydd eich hyfforddiant Cynrychiolwyr Cwrs yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch i ddatrys problemau'n effeithiol, a gall yr isod eich helpu i ddechrau:

Mater sy'n effeithio ar fyfyrwyr ar eich cwrs


- Os yw'n fater brys, peidiwch ag aros tan y PSM nesaf i fynegi pryderon - ewch i'r afael â materion sy'n sensitif o ran amser trwy eu trafod yn uniongyrchol gyda thîm eich rhaglen
- Os daw rhywun â mater i'ch sylw ond nad yw'n sensitif o ran amser, mae'n adborth pwysig o hyd, a gallwch ei goladu gydag adborth arall a'i ddwyn ger bron y PSM nesaf
- Dilynwch y mater gyda myfyrwyr a'i ddilyn gyda staff - caewch y ddolen adborth!

Mater sy'n effeithio ar fyfyrwyr ar draws y Brifysgol

- Os yw materion a godir gyda chi'n effeithio ar fyfyrwyr y tu allan i'ch rhaglen hefyd, codwch hyn gyda Chynrychiolwyr Llais Myfyrwyr a Llywyddion etholedig (Swyddogion Sabothol) - wrth rannu'r adborth hwn, gellir ei godi wedyn mewn cyfarfodydd priodol ar lefel Prifysgol lle eir i'r afael â materion ar y lefel uchaf

Mater yn ymwneud ag aelodau staff unigol

- Mae'n bwysig, pan fyddwch yn rhoi adborth, nad ydych yn enwi neu'n beirniadu aelodau unigol o staff neu fyfyrwyr yn gyhoeddus
- Os bydd rhywun yn cysylltu â chi gyda phryderon am aelod unigol o staff, ceisiwch gyngor gan Dîm Llais y Myfyrwyr ac o bosibl Undeb y Myfyrwyr ehangach i ymdrin â hyn yn sensitif ac yn synhwyrol ar gyfer pawb sydd dan sylw.



Gynrychiolydd
MYFYRWYR

HELO, Rwy'n • HELLO, I'M A

STUDENT
Representative

Undeb
Myfyrwyr
Yr Ysbyrdd
uwtsd
Students'
Union

@uwtsdunion
uwtsdunion.co.uk/rep

Ffiniau ac Atgyfeirio

#4

Gallwch chi helpu gyda'r canlynol



- Adnoddau astudio (fel argaeledd llyfrau, labordai cyfrifiaduron, benthyg gliniaduron, adnoddau llyfrgell, Moodle, a.y.b.)
- Materion cwricwlwm a chynnwys cyrsiau
- Cyfathrebu rhwng Staff y Brifysgol, Staff Undeb y Myfyrwyr, a Myfyrwyr
- Materion amserlennu
- Pryderon ynghylch lleoliadau gwaith
- Costau cudd ar gyrsiau nad yw'r Brifysgol efallai yn ymwybodol ohonynt
- Materion ynghylch strwythur y cwrs (e.e. addysgu bloc neu ddosbarthu gwaith)
- Asesiadau a therfynau amser
- Dulliau ac adnoddau addysgu
- Hygyrchedd

Ni allwch chi helpu gyda'r canlynol



- **Pryderon lles** - cyfeiriwch nhw at Wasanaethau'r Myfyrwyr
- **Cwynion ffurfiol** - cyfeiriwch nhw at Undeb y Myfyrwyr (anfonwch e-bost at unionadvice@uwtsd.ac.uk)
- **Achosion myfyrwyr unigol** megis honiadau o gamymddwyn academiaidd, camymddwyn anacademaidd, apeliadau, neu amgylchiadau esgusodol - cyfeiriwch nhw at Dîm Cyngori Undeb y Myfyrwyr (anfon e-bost at unionadvice@uwtsd.ac.uk)
- **Cyhuddiadau o aflonyddu neu fwlio** - cyfeiriwch nhw at Undeb y Myfyrwyr
- **Perfformiad myfyriwr unigol** - cyfeiriwch nhw at staff y cwrs
- **Cwynion yn erbyn aelodau staff** - cyfeiriwch nhw at Undeb y Myfyrwyr

Ffiniau Eich Rôl ac Atgyfeirio

Fel Cynrychiolydd Cwrs, fe welwch fod myfyrwyr ar adegau'n teimlo'n fwy cyfforddus yn mynd atoch chi gyda materion na mynd at aelod o staff yr Undeb neu'r Brifysgol. Mae'n bwysig bod yn glir ynghylch yr hyn y gallwch chi eu helpu i'w ddatrys a'r hyn na allwch chi ei wneud i'w helpu. Byddwch yn bwynt cyswllt ar gyfer unrhyw faterion ar lefel cwrs; unrhyw beth y tu allan i'r ffiniau a'r paramedrau hynny, cyfeiriwch unigolion at y gwasanaethau cymorth neu cysylltwch â Thîm Llais y Myfyrwyr.

Mae'n iawn i chi beidio â gwybod beth yw'r holl atebion - unrhyw beth rydych chi'n ansicr yn ei gylch, cysylltwch ag Undeb y Myfyrwyr neu Ddesg Gymorth Hwb, yn dibynnu ar y pryder rydych chi'n ei godi.

Cysylltiadau Allweddol

Gellir gweld Tîm cyfan Undeb y Myfyrwyr yn **www.uwtsdunion.co.uk/team**, fodd bynnag, isod mae cysylltiadau allweddol a all fod o fudd i chi yn eich rôl:

Tîm Llais Myfyrwyr (studentvoice@uwtsd.ac.uk)


- Rheolwr Llais Myfyrwyr
- Cydlynwyr Llais Myfyrwyr

Swyddogion Sabothol

- Llywydd y Grŵp
- Llywydd Campws Llamed
- Llywydd Campws Abertawe

Cynrychiolwyr Myfyrwyr Eraill

- Cynrychiolwyr Cwrs
- Cynrychiolwyr Llais Myfyrwyr



Termau Defnyddiol

Swyddfa Academaidd	Yr adran sy'n gyfrifol am ddatblygu a rheoli fframwaith rheoleiddio academaidd y Brifysgol, sicrhau ansawdd, a gweithdrefnau gwelliant a phrofiad academaidd
Agenda	Dogfen a rennir cyn y cyfarfod sy'n amlinellu'r hyn a drafodir yn ystod y cyfarfod hwnnw
Cadeirydd	Y person sy'n arwain cyfarfod ac yn sicrhau ei fod yn cadw ar y trywydd iawn o ran amseru ac yn dilyn yr agenda
Athrofa	Dyma'r enw ar gyfer grwpio Disgyblaethau Academaidd yn eu 'cartrefi'
IMH	Athrofa Rheolaeth ac Iechyd
IEH	Athrofa Addysg a Dyniaethau
IICL	Athrofa Dysgu Canol y Ddinas
WISA	Athrofa Gwyddoniaeth a Chelf Cymru
NSS	Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (arolwg a anfonir at bob myfyriwr israddedig yn eu blwyddyn olaf o astudio ar draws y DU)
Cofnodion	Cofnod o'r hyn a drafodwyd mewn cyfarfod

Termau Defnyddiol

PTES	Arolwg Profiad Ôl-raddedigion a Addysgir (arolwg a anfonir at yr holl Fyfirwyr Ôl-raddedig a Addysgir)
PRES	Arolwg Profiad Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig (arolwg a anfonir at bob Ymchwilydd Ôl-raddedig)
Llywydd / Swyddog Sabothol	Myfyriwr sydd wedi cymryd blwyddyn allan o'i radd (neu newydd raddio) wedi'i ethol gan yr holl fyfirwyr i gynrychioli buddiannau myfyrwyr yn llawn-amser (am flwyddyn; uchafswm o 2 flynedd)
Swyddog Rhan-Amser	Gwirfoddolwr etholedig sy'n ymgyrchu gyda myfyrwyr ac yn eu cynrychioli wrth astudio; mae gan bob rôl gyfrifoldebau penodol
Atgyfeirio	Cyfeirio myfyrwyr at wasanaethau priodol yn hytrach na mynd i'r afael â materion nad ydynt yn gyfrifoldeb i chi
Cynrychiolwyr Llais Myfyrwyr	Dumfries penodedig sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda Chynrychiolwyr Cwrs i sicrhau bod adborth o ddisgyblaethau academiaidd yn cael ei rannu â rheolwyr yr Athrofa
Gwasanaeth Cynghori Undeb y Myfyrwyr	Gwasanaeth cyfrinachol ac am ddim sy'n annibynnol ar wasanaeth y Brifysgol sy'n rhan o Undeb y Myfyrwyr - mae ar gael i holl fyfirwyr PCyDDS





**Undeb
Myfyrwyr**
PCYDDS

UWTSD
**Students'
Union**

**www.uwtsdunion.co.uk/cy/rep
studentvoice@uwtsd.ac.uk**